TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# VTCT Award in Lash and Brow Treatments Level 2

**Yn gryno**

Pwrpas y cymhwyster hwn yw datblygu eich sgiliau ymarferol i lefel uwch o allu galwedigaethol er mwyn cynnig eich gwasanaethau lliwio a siapio i'r amrannau a'r aeliau.

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo a'i gefnogi gan Awdurdod y Diwydiant Trin Gwallt a Harddwch (HABIA), y corff gosod safonau ar gyfer cymwysterau trin gwallt, harddwch, ewinedd a sba.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...unigolion hunan-gymhellol, sy'n gweithio'n galed, sy'n gyfeillgar ac yn meddu ar lefel uchel o gyflwyniad personol.

...dylech fod yn ymroddedig i bresenoldeb llawn a phrydlondeb ar gyfer pob sesiwn

...dylech fod â diddordeb yn y diwydiant harddwch neu'n gweithio ynddo'n barod.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Cynnwys y cwrs**

Mae'r Dyfarniad VTCT Lefel 2 mewn Triniaethau i'r Amrannau a'r Aeliau yn gymhwyster sydd wedi ei ddylunio i ddatblygu eich sgiliau ymarferol i siapio (pliciwr blew) a lliwio (arlliwio amrannau ac aeliau).

Byddwch yn dysgu sut i gadw siâp yr ael wreiddiol neu newid siâp yr ael pe dymunir. Byddwch hefyd yn dysgu am nodweddion lliwiau gwahanol a'r broses gemegol o liwio.

Mae'r cwrs hwn y addas ar gyfer y rhai sydd eisiau blas ar fod yn dechnegydd amrannau ac mae hefyd yn fan cychwyn da ar gyfer dechrau gyrfa yn y maes.

Cewch eich asesu drwy gydol y cwrs drwy gyfuniad o aseiniadau byr ac asesiadau ymarferol o'ch gwaith.

**Gofynion Mynediad**

Mae'r cymhwyster hwn yn addas ar gyfer dysgwyr 16 oed a hyn.

Bydd disgwyl ichi fod â diddordeb yn y maes harddwch neu'n gweithio ynddo.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Gwisg:

Rhaid gwisgo tiwnig gyda throwsus ac esgidiau duon mewn salonau
Gwallt wedi'i glymu'n ôl yn daclus oddi wrth yr wyneb
Ni ddylid gwisgo estyniadau ewinedd na farnais ewinedd
Dim gemwaith na thlysau, cewch wisgo modrwy briodas yn unig yn y salon

Bydd disgwyl ichi wisgo eich gwisg diwydiant harddwch neu ddillad priodol a phrynu pecyn arlliwio fel amod o'ch lle ar y cwrs. Y gost yw oddeutu £30-£50.

Mae'r holl gostau'n cael eu hadolygu a gallent newid.